Comisiynydd Safonau y Cynulliad Cenedlaethol

Adroddiad i'r Pwyllgor ar Safonau Ymddygiad: 24 Tachwedd 2005

1. Yn fy ail adroddiad, hoffwn roi diweddariad i'r Pwyllgor ar fy ngweithgareddau dros y misoedd diwethaf. Er bod gwyliau'r Cynulliad wedi cymryd llawer o'r amser ers fy adroddiad diwethaf, mae wedi bod yn gyfnod prysur.

2. Fel y gwneuthum adrodd i'r Pwyllgor yn y cyfarfod diwethaf, yr wyf wedi bod yn gweithio ar raglen o gyfarfodydd i ymgysylltu ag Aelodau'r Cynulliad. Pwrpas cyffredinol hyn fu dwyn ymlaen neges am rôl y Comisiynydd yn gyffredinol, ac yn arbennig, fy nghynlluniau ar gyfer datblygu ymhellach y Diwylliant Safonau.

Ymgysylltu gydag Aelodau'r Cynulliad

3. Yr wyf bellach wedi cyfarfod ag arweinwyr y pedair prif Blaid a gynrychiolir yn y Cynulliad, Cadeirydd y Pwyllgor a Llywydd y Cynulliad; yn ogystal â'r Ysgrifennydd Parhaol a'r Clerc i'r Cynulliad. Yr wyf hefyd wedi ysgrifennu at holl Aelodau'r Cynulliad (24 Awst) yn hyn o beth. Rhai o'r prif bwyntiau sydd wedi dod i'r amlwg yw:

- Ychydig o achos pryder sydd ar hyn o bryd ymhlith grwpiau gwleidyddol gyda golwg ar Safonau Ymddygiad.

- Mae dealltwriaeth o bwysigrwydd cynnal safonau moesegol uchel yn y Cynulliad, a derbyniad fod gan yr holl bleidiau ran i'w chwarae i ddatblygu diwylliant safonau ffyniannus.

- Mae parodrwydd i gydweithredu i ddatblygu arferion i brif ffrydio prosesau safonau.

4. Wedi dweud hynny, does dim lle i laesu dwylo, a byddaf yn parhau i fynd â'r agenda hon ymlaen.

Gwefan y Comisiynydd

5. Wedi rhai trafferthion cychwynnol, mae gwefan swyddfa'r Comisiynydd Safonau bellach yn weithredol. Mae'r safle'n darparu gwybodaeth graidd ar fy rôl fel Comisiynydd a sut y gellir cyrraedd y swyddfa. Mantais arbennig y safle yw ei bod yn cynnwys gwybodaeth berthnasol mewn un lleoliad, gan gynnwys gwybodaeth ar y broses gwynion.

6. Mae'r safle hefyd yn rhoi cyfeiriad E-bost ar gyfer y Comisiynydd, sy'n galluogi'r cyhoedd i gysylltu â mi'n uniongyrchol. Yr wyf eisoes wedi cael gohebiaeth trwy'r cyfleuster e-bost newydd, yr wyf wedi'i ganfod sy'n helpu i gyflymu'r broses, gan fy ngalluogi i ddarparu ymateb mwy sydyn i'r ymholiadau a gaf.

Cynlluniau at y dyfodol

7. Fel y nodais uchod, byddaf yn parhau i fwrw ymlaen gydag agenda i adeiladu diwylliant safonau. Wrth wneud hynny byddaf yn gobeithio cynnal cyfarfodydd gyda Peter Law a John Marek, yn ogystal â chyda'r Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru dros yr wythnosau nesaf.

8. Byddaf yn edrych ar ffyrdd o ddefnyddio'r wefan sydd newydd ei datblygu i dynnu sylw at rai negeseuon, a byddaf yn edrych sut mae safleoedd tebyg yn cael eu datblygu mewn deddfwrfeydd eraill.

9. Yn olaf, gobeithiaf weithio gyda'r Pwyllgor fel mae'n datblygu ei raglenni gwaith at y dyfodol a byddaf yn fodlon rhoi cyngor a chymorth yn hyn o beth pryd bynnag y gallaf.

Richard Penn
Comisiynydd Safonau y Cynulliad Cenedlaethol
Tachwedd 2005